



HEDDWCH

Rhifyn 77 > Mis Ebrill 2021 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear



ARWYDDWCH Y CYTUNDEB!

Daeth y gwanwyn, ac mae'r Cytundeb i Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) mewn grym yn y CU. Bu'n ymdrech fyd-eang, amlochrog, ond mae'n dal heb ei gadarnhau gan y bobl y byddwch chi'n eu hethol. Felly dywedwch wrthynt am roi'r gorau i sôn am olynnydd i Trident a ffocysu ar achub bywydau yn lle llofruddiaeth dorfol.

GWAITH AR Y GWEILL

Daeth y Cytundeb i Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) yn gyfraith ryngwladol ar 22 Ionawr 2021. Rydym yn dal i fod ar y llinell gychwyn yn hytrach nag yn torri'r tâp terfynol, ond deil hon i fod yn foment hanesyddol.

Ar t4 mae Brian Jones yn edrych ar y ffordd orau o fynd â'r maen i'r wal gyda'r Cytundeb ac ar t6, Thomas Pitt sy'n bwrw golwg ar y sefyllfa ddiafogi gyfredol. Mae newyddion Cymru ar t12 yn nodi sut y croesawyd y TPNW yng Nghymru.

Coup fan hyn a coup fan draw?

Mae e wedi mynd – am y tro! Ar 6 Ionawr anogodd Trump ei ddilynwyr i ymosod ar y Capitol ei hun i geisio atal canlyniad etholiad cyfreithlon. Bu farw pump o bobl ac anafwyd 140. Gorfodwyd yr Is-lywydd Mike Pence i ffoi rhag y dorf – ynghyd â swyddog awyrlu yn cydio yn y cas dogfennau

sy'n cynnwys y codau i lansio taflegrau niwclear.

Roedd llawer yn cofio sut y cefnogodd UDA coups yn y gorffennol i ddymchwel gwleidyddion a etholwyd yn ddemocrataidd ledled y byd (Iran, 1953 a Chile, 1973, i enwi ond dau). Yn awr, o'r diwedd, dyma'r UD yn penderfynu llwyfannu coup yn erbyn ei hun! A'r tro hwn roedd y daeargryn yn y Capitol, calon yr ymerodraeth.

Lle i obaith?

Chwarae teg i Biden, mae wedi ail-ymgysylltu â sefydliadau byd-eang a diplomyddiaeth, atal fandaliaeth amgylcheddol, codi gwaharddiadau teithio anghyfiawn a lleddfu problemau mewnffudo, mynd i'r afael â gwaddol enbyd Covid, ac ailymuno â gweithredu ar yr hinsawdd.

Oes yr Ansefydlog

Fodd bynnag, mae pryderon geo-wleidyddol yn dal i blagiog.

Yn yr *Observer* yn mis Mawrth, canfu John Naughton bod UDA yn dioddef o anhwylder 'pryder hegemoni', fel yr oedd yn y 1950au. I wella'r cyflwr hwn, byddai'r cymhleth milwrol-ddiwydiannol yn argymell Rhyfel Oer newydd gyda China. Os yw Biden yn ceisio atgyfodi rôl 'arweinydd y byd rhydd', mae'r byd hwnnw wedi symud ymlaen tra'r oedd ef i ffrwrdd – ac roedd y status quo cyn Trump eisoes yn ddiffygiol iawn.

Ei dweud hi fel y mae

Heddiw mae unbeniaid, celwyddgwn, poblyddwyr a ffasgwyr go iawn yn torsiysu ar lwyfannau'r byd yn ddigerydd. Rhaid i unrhyw arweinydd sy'n dymuno beirniadu arferion annemocrataidd eraill lefaru o'r tir uchel moesol neu golli hygrdedd. Ni ellir beirniadu Unben A tra'n closio at Unben B. Ni ellir cyhuddo gwlad arall o ymlediad niwclear os ydych chi eich hun neu'ch cynghreiriaid wrthi'n prynu taflegrau newydd.

Ni all neb alw am reolaeth y gyfraith heb gau Guantánamo, na chwyno am droseddau rhyfel heb dderbyn awdurdod y Llys Troseddol Rhyngwladol.

Ynghanol y lluo o ryfeloedd dirprwyol ac yn argyfyngau mae'n bryd cael gwleidyddiaeth o egwyddor. Arwyddwch y TPNW! Sylwer bod Cloc Dydd y Farn Bwletin y Gwyddonwyr Atomig, a ailosodwyd ar gyfer 2021, yn dangos dim ond 100 eiliad i hanner nos o hyd...

Philip Steele

Liz Screen



Aberystwyth yn croesawu'r TPNW, gyda Liz Screen, Ramsey White a Mary Millington

ETHOL SENEDD NEWYDD

Bydd y bleidlais ar 6 Mai 2021. Dewch mlaen, chi bobl ifanc 16 a 17 oed, i fwrw pleidlais am y tro cynta! Gwnewch hanes ...

Byddwn yn ethol ein 60 aelod o Senedd Cymru ddydd Iau 6 Mai 2021. Bydd gan bawb yng Nghymru – yn cynnwys, am y tro cyntaf, bobl ifanc 16 a 17 oed, a gwladolion tramor sy'n breswylwyr cyfreithlon – ddwy bleidlais: un dros Aelod o'r Senedd (AS) i'w hetholaeth unigol, ac ail bleidlais dros blaid a fydd yn dewis Aelodau rhanbarthol y Senedd. Cofiwch mai dim ond ar y rhestr ranbarthol y bydd rhai pleidiau yn cynnig ymgeiswyr.

Am nodiadau ar sut mae'r system etholiadol yn gweithio ac am gefndir, ewch i: <https://senedd.cymru/etholiad/>

Mae ymgyrchu etholiadol yn debygol o fod yn hollol wahanol y tro hwn oherwydd sefyllfa Covid-19, heb ddim canfasio o-ddrws-i-ddrws, a gyda chyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal ar-lein. Fe ddylech allu cael manylion cyswllt ar gyfer eich holl ymgeiswyr o wefan eich cyngor lleol: gallwch anfon e-bost atynt, eu ffonio, neu ofyn am drafodaeth fideo ar-lein.

Bydd ar yr ymgeiswyr eisiau eich pleidlais chi – felly sicrhewch eu bod nhw'n gwybod beth rydych chi ei eisiau! Daw aelodau CND Cymru o sbectrwm gwleidyddol eang, ac ni fyddwn yn cymeradwyo ymgeiswyr neilltuol. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r un blaenoriaethau ymgyrchu: arfau niwclear a diarfogi, ynni niwclear, gwastraff niwclear, heddwch a'r amgylchedd.

Bydd CND Cymru yn anfon holiadur byr at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholiad hwn, yn gofyn pum cwestiwn iddyn nhw:

(A) ARFAU NIWCLEAR – er nad yw'n fater datganoledig, gall Aelodau'r Senedd arwyddo Addewid Seneddwy'r ICAN yn cefnogi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear. A feddech chi'n arwyddo hwn pe caech eich ethol?

(B) ARFAU NIWCLEAR – a fydddech yn cefnogi mesurau i sicrhau nad oes gan gronfa bensiwn y

Senedd unrhyw fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu arfau niwclear?

(C) ARFAU NIWCLEAR – a fydddech yn cefnogi polisi gan y Senedd o wahardd cludo, lleoli neu ddefnyddio arfau niwclear yng Nghymru, yng ngofod awyr Cymru, ac yn nyfroedd arfordirol Cymru?

(CH) PŴER NIWCLEAR – gan fod Cymru yn cynhyrchu mwy o drydan nag a ddefnyddia, sut fydddech chi'n ymateb i unrhyw gynnig o blaid cynhyrchu pŵer niwclear newydd yng Nghymru?

(D) GWASTRAFF NIWCLEAR – er nad yw pŵer niwclear yn fater datganoledig, y mae gwastraff niwclear. Sut fydddech chi'n ymateb i unrhyw gynnig o blaid stori gwastraff niwclear yng Nghymru?

Byddwn yn cynhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan www.cndcymru.org ac ar ein tudalen gweplyfr o ganol Ebrill ymlaen.



BWRW YMLAEN Â'R CYTUNDEB

Ar yr 22 Ionawr 2021 daeth y Cytundeb ar Wahardd Arfau NiwcLEAR (TPNW) i rym yn swyddogol. Cafodd cynnig yn croesawu'r cytundeb ei gefnogi gan 130 o wledydd yn y Cenhedloedd Unedig. Mae Is-gadeirydd CND Cymru, **Brian Jones**, yn holi 'Beth nesa?'

Yr ymgyrch fyd-eang

Blaenoriaethau'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau NiwcLEAR (ICAN) yw

- annog y 36 gwlad sydd eisoes wedi arwyddo'r cytundeb i gwblhau eu prosesau cadarnhau, ac

- annog y 44 gwlad a bleidleisiodd dros groesawu'r cytundeb i frwr ymlaen i'w arwyddo.


Gobaith ICAN yw y symbylir gwledydd i weithredu er mwyn gallu mynychu cyfarfod cyntaf y gwledydd sy'n rhan o'r TPNW. Cynhelir hwnnw, mae'n debyg, yn Awstria ddiwedd 2021.

NATO - beth yw barn y cyhoedd?

Dengys arolygon barn a wnaed ar ddiwedd 2020 mewn chwe gwlad NATO – Gwlad Belg, Denmarc, Gwlad yr Iâ, yr Eidal, yr Iseldiroedd a Sbaen – lefelau uchel iawn o gefnogaeth gan y

cyhoedd i'w gwledydd ymuno â'r TPNW:

Canran o ymatebwyr a atebodd "ydw" i'r cwestiwn: "A ydych yn credu y dylai eich gwlad fod yn rhan o Gytundeb y CU ar Wahardd Arfau NiwcLEAR?"



Roedd y gefnogaeth i safbwynt y llywodraeth bresennol – gwrthod ymuno â'r cytundeb – mewn ffigurau sengl yn y mwyafrif o wledydd. Roedd y rhai a holwyd yn dal i gefnogi ymuno â'r TPNW yn llethol, hyd yn oed os mai nhw fyddai'r aelod NATO cyntaf i wneud, yn wyneb pwysau gan yr UD i beidio. Yng Ngwlad Belg, yr Almaen, yr Eidal

a'r Iseldiroedd, canfu'r arolygon hefyd gefnogaeth boblogaidd o blaid symud arfau niwcLEAR yr UD o'u tiriogaeth.

Dengys yr arolygon barn hyn y gagendor rhwng polisi NATO ar arfau niwcLEAR â'r gefnogaeth ddemocrataidd i'r TPNW. Nawr bod y cytundeb wedi dod i rym, dim ond parhau i dyfu a wna'r gefnogaeth fyd-eang i'r TPNW, gan gynnwys o fewn gwledydd NATO.

Mae adran ymchwil llywodraeth yr Almaen newydd gyhoeddi adroddiad, *On the legal relationship between the Treaty on the Prohibition of Nuclear Weapons and the Non-Proliferation Treaty*, a ddaeth i'r casgliad nad oes gwrthdaro rhwng y TPNW â'r Cytundeb Atal Ymlediad niwcLEAR, fel a ddadleuir yn fynych gan lywodraethau NATO (yn cynnwys y DU).



YN Y CYFAMSER, YNG NGHYMURU...

Mae CND Cymru am gyfrannu at y momentwm hwn trwy argyhoeddi gwleidyddion a phobl y byddem ni, a'r byd, yn fwy diogel heb arfau niwclear.

Gydag etholiadau Senedd ar y gorwel, byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd am eu barn ar y TPNW (gweler t3).

Rydym hefyd yn gobeithio cyrraedd cymunedau ffydd yng Nghymru drwy'r Addewid gan Arweinwyr Ffydd i gefnogi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear:

"Fel arweinydd ffydd, rwy'n croesawu'r ffaith i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear ddod i rym ar 22 Ionawr 2021 fel cam pwysig tuag at wireddu byd sy'n rhydd o arfau niwclear. Rwy'n rhannu'r pryder dwys a fynegir yn rhagymadrodd y cytundeb ynghylch canlyniadau trychinebus defnyddio unrhyw arf niwclear i'r ddynoliaeth, ac o'r herwydd credaf bod yn rhaid cael gwared o'r arfau annynol a ffaidd hyn. Addawaf ddadlau'r achos moesol o blaid y TPNW ac y byddaf yn galw ar lywodraeth y DU i lofnodi'r cytundeb hwn a'i gadarnhau".

heddweithredu:


Da chi, helpwch ni trwy gysylltu ag unrhyw grwpiau ffydd yn eich ardal a gofyn iddyn nhw i gefnogi'r TPNW drwy gael eu harweinwyr i lofnodi'r addewid.

Mae'r geiriad llawn ar gael ar-lein yn <https://www.cndcymru.org/cy/gwybodaeth/cwan/ffydd>

Gobeithiwn sicrhau llawer o gyhoeddusrwydd pan gaiff y rhestr o gefnogwyr ei rhoi i'r wasg yn ddiweddarach eleni.

Mae Cymru yn croesawu'r TPNW (dde ac isod)

Ers Heddych 76, cadarnhaodd 4 gwlad y TPNW: Benin, Cambodia, Comoros, a'r Philippines, sy'n golygu bod 54 gwlad wedi arwyddo'r cytundeb a'i gadarnhau. At hynny, arwyddodd dwy wlad arall (Niger a Zimbabwe) y cytundeb ac, fel 34 gwlad arall, maent bellach yn y broses o'i gadarnhau.



CND Cymru



RHOI'R DARNAU NÔL YN EU LLE

Mynychodd Thomas Pitt o Gaerdydd Gynhadledd Paris ICAN ar ran CND Cymru yn 2020. Mae llawer wedi newid ers hynny.

Ar 26 Ionawr 2021, cynhaliodd yr Arlywyddion Joe Biden a Vladimir Putin eu galwad ffôn gyntaf ers sefydlu'r cyntaf ohonynt yn Arlywydd. Bydwn llawer o'r penawdau oedd eu trafodaeth ar ymyrraeth etholiadol ac ar restiad Alexei Navalny, ond llawn mor bwysig oedd cytundeb y ddwy ochr i ymestyn **New START** tan 2026, penderfyniad a gafodd gadarnhad ffurfiol wedi hynny. Pe cawsai'r cytundeb ddod i ben ar 5 Chwefror, ni fyddai unrhyw derfynau o sylwedd wedi bod ar nifer yr arfau niwclear ym meddiant y ddwy wladwriaeth. Mae'r ffaith i ni osgoi'r sefyllfa hynod beryglus hon, nas gwelwyd ers anterth y Rhyfel Oer, yn ddatblygiad i'w groesawu. Gyda'r estyniad i New START, preswlydd newydd yn y Tŷ Gwyn, **Cynhadledd Adolygu'r CAY (RevCon)** a ohiriwyd i'w chynnal ym mis Awst yn awr ac, wrth gwrs, y TPNW bellach mewn grym, nid yw'n afrealistig gofyn a allai 2021 fod yn flwyddyn nodedig o ran ymdrechion diarfogi byd-eang. Rhaid dweud, fodd bynnag, yr erys llw o rwystrau. Gan ddechrau gyda'r CAY, y gobaith yw y bydd RevCon eleni yn fwy llwyddiannus nag yn 2015, pan ddaeth y trafodaethau i ben heb gytundeb. Mae'r gohiriad o achos coronafeirws yn gyfle i Biden ddefnyddio'r RevCon i

ailymrwymo'r UD i weithredu amlochrog, ond nid gorchwyl syml, eto fyth, fydd cytuno ar ddogfen derfynol trwy gonsensws sy'n cynnwys pob un o'r 191 o wledydd sy'n rhan o'r cytundeb.

Mae hyn yn arbennig o wir yng ngoleuni cyd-destun presennol y Dwyrain Canol. Y pennaf o blith llw o bryderon yw rhaglen niwclear Iran, gyda'r wlad yn cyhoeddi ym mis Ionawr y byddai'n cynyddu faint o wraniwm a gyfoethogir i 20%, cam sylweddol tuag at allu cynhyrchu arfau niwclear. At hynny, er bod Iran wedi mynnu o'r blaen mai at ddibenion heddychlon yn unig y mae ei rhaglen, adroddwyd ym mis Chwefror bod gweinidog cudd-wybodaeth Iran, Mahmoud Alavi, yn dweud y gallai ei wlad fynd ati i ddatblygu arfau niwclear oni chodir y sancsiynau.

Felly, mae adfywio'r **JCPOA**

(**Cydgynllun Gweithredu Cynhwysfawr**), y cefnodd yr Unol Daleithiau arno yn 2018, yn hanfodol. Addawodd Biden wneud hyn, ond wrth i ni fynd i'r wasg, haws dweud na gwneud. Gydag etholiadau Iran ym mis Mehefin, mae'n debygol y bydd elfennau digymroddedd yno yn ceisio dylanwadu. Nid wnaeth llofruddiaeth prif wyddonydd niwclear Iran, yn honedig gan wasanaeth cudd-wybodaeth Israel, ddim oll i wella cysylltiadau yn y rhanbarth. Felly, mae'r sefyllfa ddiarfogi fyd-eang bresennol yn ddarlun cymysg, yn llawn peryglon a chyfleoedd. Ond mae yma reswm dros obeithio o'r newydd a, hyd yn hyn, mae Biden wedi gwneud datganiadau calonogol ynglyn â'i fwriadau ar gyfer diarfogi ac atal ymlediad. Dylai'r deuddeg mis nesaf roi syniad llawer cliriach i ni o sut ac i ba raddau y caiff y geiriau hyn eu troi'n gamau diriaethol.



Grym awyrol yr UD: awyren fomio Stealth

ARGYFWNG YN YEMEN

Mae Yemen yn wynebu argyfwng dyngarol enbyd. Mae gwrthdaro dinistriol yn golygu bod ar blant a theuluoedd angen bwyd, dŵr a chyflenwadau meddygol ar frys. Ar hyn o bryd, mae 1.71 miliwn o blant wedi'u dadleoli yno'n fewnol.

Nid oes unman diogel i blant yn Yemen.

Aeth 40% o'r arfau a werthwyd gan y DU rhwng 2010 a 2019 i Saudi Arabia sy'n cyfrannu yn sylweddol i'r argyfwng.

Cyflwynwyd Cynnig EDM sy'n galw ar Lywodraeth y DU i roi terfyn ar bob cefnogaeth i'r rhyfel a rhoi'r gorau yn ddiymdros i werthu arfau i Saudi Arabia yn Nhŷ'r Cyffredin: <https://edm.parliament.uk/early-day-motion/58001>

Dim ond pedwar o 40 Aelod Seneddol Cymru sydd wedi llofnodi'r Cynnig hwn (sef tri Aelod Seneddol Plaid Cymru a'r aelod annibynnol Jonathan Edwards).

Sgrifennwch at eich Aelod Seneddol a gofynnwch iddi/iddo ei lofnodi.

Mae Unicef yn poeni bod lledaeniad y coronafeirws yn Yemen yn debygol o fod yn ddinistriol. Dim ond un o bob tri pherson sy'n medru cael gafael ar ddŵr tap, prin iawn yw'r bobl sydd â sebon, ac mae llawer o gyfleusterau gofal iechyd ar gau neu dim ond yn gallu darparu gwasanaeth sylfaenol iawn. Bydd unrhyw achosion o'r coronafeirws yn rhoi mwy fyth o bwysau ar staff

meddygol ac ar adnoddau sydd eisoes yn brin mewn ysbytai, er enghraifft menig, sebon a pheiriannau anadlu.

Mae ar 80% o boblogaeth Yemen angen cymorth a diogelwch dyngarol.

Mae dros bum mlynedd o ymladd eisoes wedi gwrthio Yemen a'i system iechyd i ymyl y dibyn. Nid yw miliynau o blant yn gallu cael gafael ar ddŵr glân a chyfleusterau glanweithdra ac mae angen gofal iechyd sylfaenol arnynt yn enbyd. Mae diffyg maeth hefyd yn broblem waeth nag erioed. Mae 2 filiwn o blant yn dioddef o ddiffyg maeth difrifol ac mae dros 368,000 o blant dan 5 oed yn dioddef o ddiffyg maeth eithriadol ddifrifol ac arnynt angen bwyd ar frys er mwyn gallu goroesi.

heddweithredu:

Rhoddi:

<https://www.unicef.org.uk/donate/>

Dwy erthygl dda yn y

Guardian:

<https://www.theguardian.com/world/2021/feb/01/yemen-arab-spring-ten-years-war-cholera-coronavirus-famine>



Ahmed Jahaf

<https://www.theguardian.com/world/2021/jan/03/lethal-airstrikes-in-yemen-left-off-confidential-uk-record>

Gwefan Associated Press:

UN: Over 2 million Yemeni children may starve in 2021

Gwefan Atal y Rhyfel:

<https://www.stopwar.org.uk/article/british-training-of-saudi-pilots-continues-amid-bombing-of-yemen/>

Twitter – llythyr at Dominic Raab

<https://twitter.com/KimJohnsonMP/status/1361734124445306880/photo/1>

Ym mis Mawrth rhybuddiodd Oxfam Boris Johnson y gallai cwtogi ar gymorth Prydain i Yemen gostio degau o filoedd o fywydau. Torrwyd y £200 miliwn o bunnoedd a addawyd yn 2019 i £87 miliwn, ffigur a syfrdanodd y cyhoedd a hyd yn oed rai ASau Toriaidd. Cofiwch y bu Cymru'n gyfrannog yn y rhyfel yn Yemen trwy hyfforddi peilotiaid milwrol Saudi yn RAF Valley, Ynys Môn.

IAITH YMBELYDREDD

Richard Bramhall o Landrindod yw sylfaenydd yr Ymgyrch Pelydredd Lefel-isel a Chadeirydd Cynghrair Wrth-niwclear Cymru.

Yn ei llyfr, **No Immediate Danger**, dyfynnodd y diweddar Rosalie Bertell adroddiad yn y wasg yn dangos bod yr Arlywydd Eisenhower, yn y 1950au, am gadw'r cyhoedd yn ddryslyd ynghylch effeithiau profi bomiau niwclear. Mae'r strategaeth hon yn dal mewn defnydd a gellir ei dadansoddi fel terminoleg ddryslyd a chysyniad ffug o ddos o ymbelydredd.

Un gair, dau ystyr

Wrth drafod amddiffyniad rhag peryglon ymbelydredd, mae gan y gair "gronyn" ddau ystyr – gronynnau llai o faint nag atomau ("gronynnau is-atomig") a darnau o fater ymbelydrol sy'n cynnwys biliynau o atomau. Caiff gronynnau is-atomig eu taflu allan o atom pan fydd yn dirywio'n ymbelydrol. Byddwn yn ymdrin â thri math, yn gyffredinol: does gan belydrau gama (neu ffotonau) ddim gwefr drydan na nemor ddim mäs, felly pur anaml y byddant yn rhyngweithio â mater, sy'n esbonio eu gallu i dreiddio. Electronau egni-uchel â gwefr negyddol yw gronynnau beta; maent yn fwy na rhai gama ac yn llai treiddiol.

Niwclei atomau heliwm yw gronynnau Alfa. O'u cymharu â rhai gama a beta maent yn fawr iawn ac mae ganddynt fomentwm enfawr. Maent felly

yn rhyngweithio â mater yn ddwys, gan ildio'u hegni ar ffurf nifer fawr o ïoneiddiadau, ac arafu mor gyflym fel na allant dreiddio trwy'r haen o gelloedd marw ar groen dynol. Gwneir holl ddfirod cychwynnol y dirywio alffa o fewn ychydig o ddiamedrau celloedd. Mae'r rhan fwyaf o'r celloedd yr effeithir arnynt yn marw ond gellir effeithio ar iechyd gan ddfirod y gellir ei oesi ond sy'n cael ei gam-drwsio.

Gronynnau llwch

Defnyddir y gair "gronyn" hefyd i gyfeirio at ysgyrion o ddeunydd fel wraniwm ocsid neu blwtioniwm o adweithyddion neu fomiau niwclear. Mae hyd yn oed gronyn un micron (diamedr o filfed rhan o filimetr) sawl biliwn gwaith yn fwy na gronyn alffa – sydd yn fwy na'r gwahaniaeth mewn maint rhwng amoeba a siarc Gwyn Mawr. Mae'r gronynnau llwch sy'n destun y pryder mwyaf yn ddim ond ychydig o ficronau ar eu traws. Gallant symud yn rhwydd iawn yn yr amgylchedd. Gall gronyn 5-micron a anedlir

i mewn deithio trwy wal yr ysgyfaint a chael ei gludo i unrhyw ran o'r corff.

Llygaidd ar gau: cyfyngiad angheuol sbectrometreg

Yn 2018 carthodd EDF dros 100,000 tonnall o fwd o Hinkley Point a'i ddympio, er gwaethaf ymgyrch brotest fawr, yn y môr ger Gaerdydd o dan drwydded a roddwyd gan Gymru yn 2014. Mae EDF eisiau dympio llawer mwy – bron miliwn o dunelli i gyd, yn ôl pob sôn. Ond daeth yr hen drwydded i ben. Gwyddys bod y mwd wedi'i lygru ag ymbelydredd felly gwnaed profion newydd y llynedd gan labordy CEFAS llywodraeth San Steffan. Y newyddion drwg yw i CEFAS ddefnyddio sbectrometreg ar y ddau achlysur. Mae sbectrometreg fel astudio enfys i weld tonfeddi cydrannol golau haul – mae'n dibynnu ar wahanu amleddau ymbelydredd y gwahanol elfennau. I gyflawni hynny, rhaid homogoneiddio'r samplau yn drwyadl. Felly gall sbectrometreg alffa ymddangos fel pe bai'n rhoi sicrwydd, ond mae homogoneiddio'r samplau yn golygu y cafodd y gronynnau llwch eu heithrio.



Llygaid ar agor: techneg fwy addas

Yn ffodus, gall yr Ymgyrch Ymbelyddred Lefel-isel ganfod effaith go iawn gronynnau allyrru-alfa trwy ddefnyddio plastig CR39. Byddech wedi defnyddio CR39 os bu i chi erioed brynu cyfarpar profi am radon (alfa-allyrrydd naturiol) yn y cartref. Y gwahaniaeth rhwng profion radon a'r llun isod yw mai nwy yw radon, felly nid yw'n clystyru. Fel y dengys data'r Cenhedloedd Unedig,^[1] mae pob gorsaf bŵer niwclear weithredol yn allyrru gronynnau ymbelydrol. Gwyddys bod gronynnau yn y môr yn mudo i'r tir. Fe'u symudir yn rhwydd iawn gan awelon ysgafn ac ni chanfu ymchwil gan UKAEA yn yr 1980au unrhyw derfyn ar yr ymfudo mewndirol. Roedd saith clwstwr tebyg ar y sleid y cafwyd y gronyn uchod arno. Ni cheisiwyd dod o hyd i rannau mwyaf llygredig yr hidlydd (byddai gwneud hynny'n beryglus ac yn anodd iawn) felly mae'n rhaid i ni dybio ei fod yn llawn llwch wraniwm. Mae gweddill yr hidlydd ym meddiant YYLI o hyd.

Ymgyrch "Geiger Bay"

Cynhwysai'r gwrthwynebiad Cymru i'r ail drwydded fygythiad credadwy o ddwyn achos cyfreithiol. Yn ddiweddar, gwnaeth EDF gais am drwydded amgen i ddympio yn

Portishead ar arfordir gogledd Gwlad yr Haf, o bosibl er mwyn osgoi craffu gan Senedd Cymru, a'r asiantaeth amgylcheddol. Y newydd drwg yw y byddai'r llanw a'r cerhyntau pwerus yn Aber Hafren yn dosbarthu'r wraniwm o Portishead yr un mor effeithiol. Mae Geiger Bay yn gwrthwynebu dympio mewn unrhyw leoliad.


Dos ymbelydrol ar gyfartaledd; cysyniad ffug

Yr elfen olaf yn ffars y risg ymbelydrol yw'r honiad swyddogol y gellir cyfartaleddu'r dosys o'r darnau o lwch allyrru-alfa ar draws y corff cyfan. Mae fel petai'r

heddlu'n gadael dyn â gwn i mewn i Stadiwm Narendra Modi (stadiwm griced fwyaf y byd) am ei fod yn dweud y câi ei fwledu ei rhannu gan bob un o'r 132,000 o bobl ynddi. Mae'r hanes a'r wyddoniaeth wedi eu hegluro mewn iaith glir mewn adroddiad newydd a gomisiynwyd gan yr elusen Children with Cancer UK.^[2]

[1] http://www.unscear.org/docs/publications/2000/UNSCLEAR_2000_Annex-C-CORR.pdf Table 34

[2] *Radiation and reason: The impact of science on a culture of confusion* <http://www.llrc.org/children.htm/>



Olion ymbelyddred alffa o ddarn o ocsid wraniwm a gafwyd yn hidlydd aer injan car a ddefnyddir yng nghyffiniau Hinkley Point yn unig. Mae pob marc crwn yn dangos y difrod a achoswyd gan un trac alffa yn taro'r plastig. Gwneir y marciau hirgrwn gan draciau sy'n teithio ar oledf ar yr wyneb. Dengys y clystyru bod y ffynhonnell wraniwm ar fras-ffurf petryal, a rhwng 5-10 micron.

DIM CAERDYDD NA PORTISHEAD

Er mwyn i EdF wneud cais am garthu pellach ar safle adeiladu Hinkley Point C, rhaid iddyn nhw ddweud ble y byddant yn “cael gwared” o’r deunydd a garthwyd. Mae EdF wedi gwneud cais i ddympio deunydd a garthwyd ar safleoedd gwasgaru morol Portishead. O dan system gynllunio Lloegr, mae’n debyg na fydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ar y cais hwn – yn wahanol i system Cymru, lle profwyd bod gwneud AEA yn ofynnol pan aed ag EdF i’r llys yn 2018.

Gan fod EdF yn cynnal AEA, rydym yn disgwyl i EdF gyflwyno cais hefyd i ddympio ar safle Cardiff Grounds, cyn gynted ag y bydd yr AEA wedi’i gwblhau. Maen nhw’n cyflwyno dau gais rhag ofn i un ohonyn nhw gael ei wrthod.

Bydd Tim Deere -Jones yn cyflwyno dadleuon ar ran CND Cymru, yn gwrthwynebu dympio gwaddod sy’n cynnwys gronynnau ymbelydrol yn y môr ar y naill safle neu’r llall, pan fyddai safle dan reolaeth iawn ar dir yn llawer mwy diogel o safbwynt yr amgylchedd. Darganfu Tim, yn 2011-2012, bod Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr wedi cynnig y dylai EdF ddefnyddio’r Holm Deeps ar gyfer gwastraff carthu – ond y gwrthododd EdF y cynnig, gan nodi y byddai’n golygu y byddai’n rhaid i EdF wneud ymchwil sylfaenol ar y safle i’r hyn fyddai’n digwydd i’r gwaddod ar ôl cael eu dympio ... rhyweth y dadleusom y dylai EdF fod wedi’i

wneud cyn unrhyw ddympio ddigwydd ger Bae Caerdydd!

Estyn allan niwclear

Unwn ar y zwm! Mae’r normal newydd wedi galluogi PAWB, CADNO, Wylfa Ni, CND Cymru, WANA a Geiger Bay i gyd-drafod yn gyson a chyfnewid gwybodaeth gyda chyd-ymgyrchwyr gwrth-niwclear o TASC (Together Against Sizewell C), Stop Hinkley a grwp Bradwell, BANNG, yn ogystal â gyda’n cyfeillion bythol gefnogol o Beyond Nuclear yn UDA.

COFIWN FUKUSHIMA

Ar Fawrth 11 eleni, roedd hi’n ddeng mlynedd union ers i adweithyddion niwclear ffrwydro yn ngorsaf niwclear Fukushima, Japan. Hoffai llywodraeth Japan a chefnogwyr y diwydiant i ni anghofio’r drychineb a chanolbwyntio ar y Chwaraeon Olympaidd sydd i’w cynnal yn Japan eleni. Y gwirionedd yw fod y drychineb yn parhau i’r miloedd o bobl a gafodd eu gorfodi o’u cartrefi yn rhanbarth Fukushima. Parhau y mae’r drychineb amgylcheddol, gyda dŵr ymbelydrol yn llifo o safle gorsaf Fukushima i’r môr. Safwn mewn undod gyda’n cyd-ymgyrchwyr gwrth-niwclear yn Japan a mynnu na chaiff unrhyw adweithyddion niwclear newydd mawr neu lai o faint eu hadeiladu yn unrhyw le yn y byd.

Dylan Morgan, PAWB



PAWB yn Japan, 2018. Linda Rogers, Robat Idris a Meilyr Tomos, gyda Ayumi Fukakusa o CyDd Japan, yn cyflwyno deiseb wrth-niwclear

WYLFA YN DAL I SYNNU, SYFRDANU A PHECHU

Ers i Hitachi dynnu'n ôl fis Medi diwethaf o'r project i adeiladu gorsaf niwclear newydd, mae datblygiadau wedi datgelu cyfyng gyngor cefnogwyr yr ymgyrch barhaus o blaid adeiladu gwaith niwclear newydd ar safle Wylfa. **Linda Rogers** sydd â'r diweddaraf.

Ganol mis Ionawr 2021, cyhoeddwyd yr arwyddodd Shearwater Energy gytundeb gyda cwmni pŵer NuScale yn yr UD, i godi ffatri gymysg o 12 Adweithydd Niwclear Modiwlaid Bach (SMNR) a fferm wynt, ar safle ar wahân i safle'r gwaith niwclear arfaethedig.

Datgelwyd fod sylfaenydd Shearwater yn bennaeth cwmni benthyciadau diwrnod-cyflog, ac fel y nododd Robat Idris, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud yr archwiliad dyladwy ar unrhyw gwmni sy'n ceisio manteisio ar bŵer niwclear er budd masnachol. NuScale sy'n arwain yr ymgyrch SMNR yn yr UD, gyda chefnogaeth Biden. Mae'r cwmni'n rhagweld y gall 12 SMNR gynhyrchu 924MW, sydd o fewn ystod MW gorsafoedd mawr. Ddim mor fach wedi'r cwbl!

Yn y cyfamser, yn ôl at y chwiliad am Wylfa Newydd, ddiwedd mis Ionawr tynnodd Horizon y cais i gymeradwyo dyluniadau adweithyddion ar y safle yn ôl, gan feio opsiynau cyllido llywodraeth y DU fel un rheswm. Cyhoeddodd y BBC ei bod hi "ar ben" ar y project. Dywedodd Horizon na allasai ddod o hyd i unrhyw un i ymgymryd â'r datblygiad newydd a bod Hitachi

yn dirwyn Horizon i ben erbyn 31 Mawrth 2021.

Cododd hyn gwestiynau ynghylch statws y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer y gwaith arfaethedig, a fuasai o dan ystyriaeth ers mis Mehefin 2018. Cawsai'r penderfyniad ar y DCO ei ohirio ddwywaith a'i roi nôl tan ddiwedd Ebrill 2021, ar gais Horizon. Daeth y penderfyniad ar y cwestiwn hwn fel syndod i ni i gyd.

Ym mis Chwefror cyhoeddwyd bod yr Arolygiaeth Gynllunio (AG) yn argymhell gwrthod y DCO. Roedd yr AG yn poeni am effaith y project ar yr economi leol, y stoc tai a'r iaith Gymraeg, ynghyd â'i fethiant i fodloni safonau bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig.

Does bosib erbyn hyn nad dyna ben y ffordd ar gyfer unrhyw

adeiladu niwclear newydd? Ond, na. Wrth i'r newydd ddod bod un o fuddsoddwyr mwyaf Prydain, Aviva, yn gwrthod cefnogi projectau niwclear newydd am fod eu llywodraethiant amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol yn destun pryder, ac wedi penderfyniad yr AG, dyma Llywodraeth Cymru yn awgrymu prynu'r tir, gan nodi "rydym yn dal yn argyhoeddedig mai Wylfa Newydd yw un o'r safleoedd gorau ar gyfer datblygu niwclear yn Ewrop ac yn parhau i drafod ffyrdd posib ymlaen gyda Hitachi a Horizon."

Felly, gallai ein harian ni gael ei ddefnyddio i brynu safle nes dod o hyd i ddatblygwr, ar gyfer project anghyfreithlon, nad oes neb arall am fuddsoddi ynddo. Dywedir bod ar Hitachi eisiau llawer o arian. Tybed a hoffai Llywodraeth Cymru ddweud faint?



Methodd y DCO dalu sylw i'r effeithiau ar fio-amrywiaeth ac ar yr iaith

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWN

Dathlu'r TPNW

Gyda'r byd yn dal dan glo'r pandemig, doedd dathliadau deddfu'r TPNW yn y CU ar 22 Ionawr 2021 byth yn mynd i gynnwys gwyliau cyhoeddus neu orymdeithio. Ond mwynhad pur oedd gweld digwyddiadau llawn dychymyg o bedwar ban yn rholio i mewn trwy'r dydd, o 'can-can ICAN' yr Alban i 'Arolygwyr Cydymffurfiaeth â'r Cytundeb' yn galw ar lysgenadaethau tramor yn Awstralia. Yma, roedd cyfryngau cymdeithasol yn llawn lluniau o gefnogwyr o bob oed, mewn mygydau ac wedi ymbellhau, yn dal baneri ac arwyddion ar lannau môr gwyntog a chaeau mwdlyd, yn gosod poster neu'n canu clychau.

Chwedl a chân o'r galon

Roedd cyfraniadau Cymru yn cynnwys sesiwn ysbrydoledig ar-lein, wedi ei chyflwyno gan gadeirydd CND Cymru, **Jill Evans**, a esboniodd bwysigrwydd y TPNW.

Adroddodd **Shara Atashi** hanes trist y ferch fach o Hiroshima, y garanod papur, a'r Parc Coffa Heddwch. Adroddodd Shara'r gerdd *Zhuravli* ('Garanod') gan yr awdur o Dagestan, Rasul Gamzatov. Datblygodd hon i fod yn gân Rwsiaidd enwog, sy'n dal yn boblogaidd i'r dydd heddiw.

Yn nesaf, galwodd **Rhun Dafydd**, cadeirydd newydd

Cymdeithas y Cymod, am gefnogaeth i'r TPNW.

Anogodd y cerddor a'r cyfansoddwr **Owen Shiers**, bobl i lobio eu ASau. Canodd hen faled ardderchog o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol yn galw am heddwch a brawdgarwch a therfyn ar ryfel. Roedd ei ail gân, a ysbrydolwyd gan gwm Cletwr lle magwyd ef, yn dathlu heddwch natur.

Perfformiodd un o sêr y genhedlaeth newydd, **Kizzy Crawford** o Ferthyr, set gerddorol ddyfeisgar, glir fel grisial a chyfareddol.

Fe'i dilynwyd gan **Mared Edwards** a siaradodd ar ran yr

Urdd, gan egluro ymrwymiad maith y mudiaid ieuencid i heddwch a diarfogi.

Y berfformwraig derfynol oedd y lleisyydd anhygoel a'r weithredwraig dros heddwch, **Frankie Armstrong**, a ganodd yn bwerus ac yn angerddol.

Diweddodd â chân wedi ei chyflwyno i'w mam-gu a aned yng Nghasnewydd, ac a ysbrydolwyd gan Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-24 a'r daith gerdded o Gymru i Greenham ym 1981.

(Gellir gweld y sesiwn hon o hyd ar dudalen Gweplyfr CND Cymru.)



Shara Atashi



Owen Shiers



Frankie Armstrong



Kizzy Crawford

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWN

Hinsawdd Cymru

Mae'n bleser gan CND Cymru fod wedi ymuno ag ymgyrch Hinsawdd Cymru, sydd am fynd â 10,000 o leisiau o Gymru i Gynhadledd Hinsawdd y CU yn Glasgow ym mis Tachwedd. Da chi, cefnogwch y fentr hon: fe ddaeth yr awr.
<https://climate.cymru/coming-soon/index.php>

GIG nid Trident

Yn ystod yr ail don o heintio a marwolaethau, dim ond cynyddu a wnaeth y straen ar weithwyr a gofawlyr y GIG. Ni allant fyw ar guro dwylo yn unig.

Unwaith eto, fe'n hwynebir gan anlladrwydd moesol y biliynau sy'n cael eu gwario ar ddatblygu arfau dinistr torfol newydd ar adeg pan fo cyfanswm marwolaethau'r DU yn fwy na 125,000.

Diolch i'r GIG a llu o wirfoddolwyr, bu'r rhaglen frechu hyd yma yn llwyddiannus, gan gynnig gobaith o'r diwedd. Fodd bynnag, cibdall ac anghyfiawn dros ben yw'r oedi a welwyd gyda'r rhaglen yn Affrica a rhannau tlotaf y byd. Yn rhy aml o lawer, defnyddiwyd brechu gan wladwriaethau i ennill dylanwad geo-wleidyddol, mantais economaidd a chyfle i glochdar.



Caernarfon yn croesawu'r TPNW



Garanod papur yn Aberystwyth

Gan ei bod yn amhosibl ymgynnull i ganu neu i gyd-ddathlu mewn modd arall oherwydd y cloi, penderfynodd Côr Gobaith Aberystwyth ddathlu'r TPNW gyda digwydd teyrnged ar Gweplyfr. Tynnwyd lluniau o weithredoedd unigol o blygu a gosod garanod heddwch mewn gwahanol leoedd a'u gosod ar dudalen y digwyddiad. Roedd y cyfraniadau'n feddylgar ac yn arloesol ac roedd y dudalen hefyd yn cynnwys llawer o adroddiadau o ddigwyddiadau'r gorffennol yn ymwneud â garanod heddwch, yn enwedig y miloedd o rai a gafodd eu plygu a'u dwyn i Faslane i'w gweu i mewn i'r brif glwyd a'r ffens o amgylch y gwersyll
<https://youtu.be/0xjbMJXEkmc>
 Postiwyd fideos cerddorol yno, yn cynnwys digwyddiad coffáu dydd Hiroshima Côr Gobaith 2020

<https://youtu.be/8uV09thFCRU>

Dyweddodd aelod o'r côr, Lotte Reimer, sy'n gwirfoddoli yn Siop y Parc, siop gymunedol Blaenplywyf, ei bod hi "wedi cael amser hyfryd yn plygu garanod heddwch a'u rhoi i gwsmeriaid, gan ledaenu'r gair am TPNW".

Fforwm NFLA Cymru

Cynhelir fforwm wanwyn 2021 yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA) ar ffurf gwe-seminar ar y 9fed o Ebrill. Ar yr agenda bydd Adweithyddion Niwclear Modiwlaidd Bach (SMNR), mwd Hinkley ac ynni gwyrdd lleol. Am fwy o fanylion, gweler: <https://www.nuclearpolicy.info/wp>

W R (Bill) Davies, OBE 1936-2021

Bu farw Bill Davies yng nghanol mis Chwefror. Bu'n Ysgrifennydd Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Cymru rhwng 1963-96 ac yn Gyfarwyddwr sefydlol Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru o 1973 i 1996, yn cyflawni'r swyddi hynny o adeilad eiconig y Deml Heddwch ac Iechyd yng nghanolfan ddinesig Caerdydd.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Crist, Caergrawnt ac ar ôl cwblhau ei Wasanaeth Cenedlaethol fe gysegrodd bron ei holl yrfa i'r gwaith cydwladol a gyflwynwyd gan y cyrff hynny a'u mudiad ar gyfer ysgolion, CEWC. Mae gan lawer atgof melyn o weithgareddau Model y Cenhedloedd Unedig (CU) i bobl ifanc a gynhaliwyd ledled Cymru yn enw CEWC, ac o'r cynadleddau preswyl i ddisgyblion 6ed Dosbarth a drefnwyd ganddo yng Ngholeg Harlech.

Nid diarfogwr unochrog mohono o bell ffordd; ond roedd Bill yn bleidiol iawn i bwysigrwydd cytundebau amlochrog a gwaith sefydliadau rhyngwladol yn creu byd saffach a thecach.

Adlewyrchwyd hynny yn yr arlwy o ddigwyddiadau a drefnwyd yn ei amser yn y Deml, a gynhwysai amrywiaeth eang o wladweinwyr, diplomyddion, gweilyddion ac academyddion. Wrth osod sylfeini cadarn ar gyfer mudiadau byd-eang y Deml Heddwch, fe wnaeth sicrhau eu bod yn dal i ymgymryd â gweithgareddau hanfodol – addysgol, ymgyrchu ac o blaid heddwch – ymhlith dinasyddion Cymru a thu hwnt hyd heddiw.

Mae'n drawiadol y nifer o gyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Ryngwladol yn ei gyfnod wrth y llyw sydd yn ymwneud â chadw heddwch gan y Cenhedloedd Unedig, diarfogi a diogelwch, détente neu ddiweddglo'r Rhyfel Oer.



Un o'i gyfraniadau ysgrifenedig mwyaf nodedig yw fel golygydd *The United Nations at Fifty: the Welsh Contribution* (1995; Gwasg Prifysgol Cymru). Mae hwn yn trafod bywydau'r Arglwydd Davies o Landinam cyntaf a phedwar Cymro arall a wnaeth gyfraniadau o bwys wrth lywio sefydliadau penodol y Cenhedloedd Unedig – UNESCO, Rhaglen Datblygu'r CU, y Gyfundrefn Llafur Rhyngwladol a Chyfundrefn Meteorolegol y Byd. Gedy Bill ferch, Lisa.

Stephen Thomas

(olymydd W R Davies yn y Deml Heddwch)

ADOLYGIAD LLYFR

Other Girls Like Me gan

Stephanie Davies

Bedazzled Ink, £10.99 2020

Clawr papur ISBN 978-1-949290-38-7

Mae *Other Girls* yn gofiant gweithredwraig o argyhoeddiad, ac yn adlewyrchiad craff o'r profiadau a luniodd ei byd-olwg. Mae'r llyfr yn olrhain ei gwahanol weithgareddau: ymgyrchu cynnar yn y mudiad gwrth-apartheid; ei hymrwymiad tymor-hir i'r mudiad heddwch; ei brwydr dros gydraddoldeb menywod a hawliau Mae ei rôl ym mhrotest Comin

Greenham yn ganolog. Bydd unrhyw un a oedd yn Greenham, a oedd am fod yn Greenham neu sydd ddim ond yn chwilfrydig am y lle, yn mwynhau'r disgrifiadau o fywyd y gwersyll a'r gweithredu. Mae'n cyfleu egni a brwdfrydedd ei dyddiau yno gyda lluo o gymeriadau bywiog yn dawnsio, gweiddi a chwerthin ar hyd y tudalennau.

Mae ei gonestrwydd yn ddeniadol iawn. Dim 'spoilers', ond roedd un weithred a'i glaniodd mewn trwbwl, yn ganlyniad penderfyniadau cwbl

ddamweiniol.

Mae'n ddigymrodedd yn wyneb rhagfarn ac anghyfiawnder, boed yn ei herbyn hi neu eraill. Roedd ei phrofiadau o rywiaeth yn ei hieuenctid yn syfrdanol (sanau a 'suspenders' ar ei phen-blwydd yn un ar bymtheg!).

Mae'r gyfrol yn deimladwy, yn gyffrous, yn ddigri ac yn ysbrydoli. Mae'n cynnwys neges hynod berthnasol i ni heddiw: 'yn wyneb rhyfel niwclear roedd gyda ni hiwmor, a gobaith a chariad.'

Denise Macguire

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



gwefan: www.cndcymru.org

e-bost: heddwch@cndcymru.org

trydar: @cndcymru

instagram: @cndcymru

gweplyfr: <https://www.facebook.com/cndcymru/>

CYSYLLTIADAU:

Cadeirydd: *Jill Evans* [Rhondda]
jillrhondda@yahoo.co.uk
 07803 902 401

Ysgrifennydd Cenedlaethol:
Bethan Siân [Aberystwyth]
bsj11@outlook.com
 07933 791207

Trysorydd ac Aelodaeth:
Michael Freeman
michael.freeman9@btinternet.com
 CND Cymru, 9 Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

John Cox [Abersychan]
drjohncox121@gmail.com
 01495 773495

Brian Jones [Pontardawe]
brian.jones@phonecoop.coop
 01792 830330

Duncan Rees [Glannau Dyfrdwy]
Duncan.rees01@gmail.com
 07534 975461

Philip Steele [Ynys Môn]
phil_steele@btinternet.com
 01248 490715

HEDDWCH

Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfog NiwcLEAR yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau at y golygydd.

Golygydd: Philip Steele
phil_steele@btinternet.com 01248 490715
Cyfieithydd: Siân Edwards
sian@siandefynnog.cymru
Cynhyrchu a phostio: Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Cyhoeddir rhifyn nesaf **HEDDWCH** ym mis Awst 2021

YMUNWCH Â CND CYMRU NAWR!
<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth>



Colomen Dewi Sant